**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

# CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 26 TACHWEDD 2024 YM MHARC CATHAYS, CAERDYDD A THRWY MICROSOFT TEAMS (09:30 – 10:30)

**Aelodau'r Comisiwn a oedd yn bresennol:** Michael Imperato (Cadeirydd), Frank Cuthbert (Aelod), Dianne Bevan (Aelod), Andrew Blackmore (Aelod Annibynnol) a Kalwant Grewal drwy MS Teams (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd TIAA a oedd yn bresennol:** Elan Parry drwy MS Teams

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru a oedd yn bresennol:** Sean Gaffney drwy MS Teams

**Swyddogion y Comisiwn a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni), David Carr (Rheolwr Cyllid) a David Burley (Pennaeth Busnes)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Julie Rees o Archwilio Cymru.

## 2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Awst a 23 Medi 2024

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Awst a 23 Medi 2024.

## 4. Materion a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod camau gweithredu wedi'u cymryd yng nghyswllt mwyafrif y materion a oedd yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

4.2 Roedd tri phwynt gweithredu'n weddill o hyd:

- Cymwysterau Cymru i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb ynghylch diogelwch TGCh i bob Aelod.
- Archwilwyr Mewnol i beidio â derbyn papurau a pheidio â bod yn rhan o drafodaethau ynghylch asesiadau archwilio mewnol o 2024-25 ymlaen.

- Cyfarfod â TIAA i'w drefnu ddechrau 2025 i drafod sut y bydd y swyddogaeth archwilio mewnol yn parhau'n effeithiol, o ystyried cyfrifoldebau ehangach y Comisiwn.

4.3 O ran hyfforddiant Cymwysterau Cymru ynghylch TGCh, cytunwyd y byddai'n cael ei gynnal wyneb yn wyneb ac y byddai'n cael ei ohirio nes bod aelodau newydd a Chadeirydd wedi'u penodi ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.4 Byddai'r penderfyniad i beidio â chynnwys yr archwilwyr mewnol mewn unrhyw drafodaethau lle caiff yr asesiad archwilio mewnol blynyddol a'i ganlyniad eu hystyried yn cael ei roi ar waith ar ddechrau ymarfer asesu 2024-25 yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

4.5 Byddai'r cyfarfod â'r tîm archwilio mewnol i drafod Cynllun Archwilio Mewnol 2025-26 yng ngoleuni cyfrifoldebau newydd y Comisiwn yn cael ei gynnal ddechrau 2025.

## 5. Adroddiad ynghylch Diogelwch TGCh a Data

5.1 Adroddwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf. Er bod cynnydd sydyn wedi bod yn nifer yr ymosodiadau gan faleiswedd drwy ebost, yr adroddwyd yn eu cylch ers y cyfarfod diwethaf, y rheswm am hynny oedd bod profion yn cael eu cynnal yn rhan o broses achredu'r Comisiwn ar gyfer Cyber Security Plus.

5.2 Amlinellodd Sean Gaffney brif bwyntiau'r Adroddiad newydd ynghylch Diogelwch TGCh. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y bygythiadau diweddaraf a nodwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, ac roedd yn canolbwyntio ar natur fwyfwy soffistigedig y Deallusrwydd Artiffisial a ddefnyddir mewn sgamiau.

5.3 Canolig oedd sgôr y Comisiwn ar hyn o bryd ar gyfer cryfder a bregusrwydd o ran seiberddiogelwch, oherwydd diweddariad a oedd yn weddill mewn perthynas â meddalwedd Zoom. Y disgwyl oedd y byddai'r sgôr ar gyfer risg i gryfder yn cael ei gostwng ar ôl gosod y diweddariad hwnnw.

5.4 Roedd dolenni cyswllt ar gyfer hyfforddiant ar-lein ynghylch diogelwch TGCh wedi'u hanfon at yr holl staff ac at bob Aelod sydd wedi cael offer TG y Comisiwn, a byddai diweddariad ynghylch cynnydd o ran cwblhau'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Archwilio Mewnol – Adroddiadau Canol Blwyddyn 2024-25

6.1 Adroddodd Elan Parry fod yr archwiliadau mewnol canol blwyddyn wedi bod yn ymdrin â Pharhad Busnes, Mesurau Rheoli TGCh Cyffredinol a Phwerau Newydd y Comisiwn. Roedd pob un o'r tri maes archwilio wedi cael Sylweddol fel sgôr ar gyfer sicrwydd archwilio, a dim ond un argymhelliad a nodwyd. Roedd hwnnw'n ymwneud â'r archwiliad ynghylch Parhad Busnes, a oedd yn nodi bod yr adolygiad o'r Polisi Rheoli Risg sawl mis yn hwyr ac y dylid ei adolygu cyn gynted ag sy'n bosibl. Adroddwyd y byddai hynny'n cael ei wneud yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Tachwedd.

6.2 Holodd Andrew Blackmore a oedd y Pwyllgor yn adolygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Comisiwn â Cymwysterau Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh, yn rhan o'i adolygiad o'r modd y caiff y Comisiwn ei lywodraethu. Adroddwyd nad oedd hynny wedi'i wneud o'r blaen. **Cytunwyd** y byddai'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod nesaf, yn adolygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cymwysterau Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh i'r Comisiwn, ac y byddai hynny'n cael ei ychwanegu at ddogfennau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 4 Mawrth 2025

6.3 Symudodd Elan Parry ymlaen i ddogfen TIAA, sef Crynodeb o Sicrwydd ynghylch Rheolaeth Fewnol, a oedd yn datgan y byddai'r archwiliadau diwedd blwyddyn yn ymdrin â'r Prif Agweddau ar Reolaeth Ariannol ac Adolygiadau Cymunedol. Roedd hefyd yn amlinellu gofynion y diweddariadau i'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, a fyddai'n cael eu mabwysiadu ar 9 Ionawr 2025. Dywedodd Elan Parry fod gwaith dadansoddi a gyflawnwyd gan TIAA yn dangos eu bod yn cydymffurfio'n barod â'r rhan fwyaf o ofynion newydd y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang. **Cytunwyd** y byddai TIAA yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod nesaf, a fyddai'n rhoi sicrwydd eu bod wedi cydymffurfio â gofynion newydd y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.
**Gweithredu:** TIAA **Erbyn:** 4 Mawrth 2025

## 7. Dogfen Drosglwyddo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

7.1 Bu'r Pwyllgor yn adolygu'r ddogfen ddrafft, a chytunodd i'w mabwysiadu fel y fersiwn terfynol ar yr amod bod un mân addasiad yn cael ei wneud. Bernid y byddai angen i'r ddogfen gael ei hategu gan drafodaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Byddai'r awenau'n cael eu trosglwyddo o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 4 Mawrth. Byddai'r cyfarfod yn cychwyn fel cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a byddai'n newid wedyn i fod yn gyfarfod cychwynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 8. Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

8.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cawsant eu cytuno ar yr amod bod sawl newid fel a ganlyn yn cael ei wneud iddynt:

- Newid cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd ('Secretary') yn gyfeiriadau at y Rheolwr Cyllid ('Finance Manager').
- Ychwanegu testun cryno ynghylch rôl y Rheolwr Cyllid.
- Dileu cyfeiriadau at y Dirprwy Brif Weithredwr.

8.2 Cytunwyd y dylai'r Cylch Gorchwyl a'r Cynllun Gwaith gael eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 4 Mawrth 2025

## 9. Platfform Gwybodaeth am Etholiadau

9.1 Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed a’r sefyllfa bresennol o ran sefydlu’r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau. Roedd y Pwyllgor yn pryderu’n fawr am y risg sylweddol i enw da’r Comisiwn pe na bai’r Platfform yn cael ei weithredu’n llwyddiannus. Byddai angen egluro wrth Lywodraeth Cymru nad oedd gan y Comisiwn yr arbenigedd ar hyn o bryd i ymgymryd â’r gwaith o ddatblygu’r Platfform.

9.2 Nodwyd bod y risg dan sylw wedi’i chynnwys ar y gofrestr risg ar gyfer rhaglen waith y dyfodol y Comisiwn, a’i bod yn cael ei hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn. **Cytunwyd** y dylai’r Comisiwn adrodd yn rheolaidd wrth y Pwyllgor ynghylch y cynnydd a wneir o ran y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 4 Mawrth 2025

## 10. Polisïau Diogelwch ac Adnoddau Dynol y mae’r symud i leoliad newydd yn effeithio arnynt

10.1 Nododd y Pwyllgor y polisïau yr oedd y symud y leoliad newydd yn effeithio arnynt, gan nodi y byddent yn cael eu diweddaru cyn gynted ag sy’n bosibl pan fyddai effaith lawn y symud wedi’i hasesu.

## 11. Diweddariad ynghylch symud i leoliad newydd

11.1 Rhoddodd y Pennaeth Busnes ddiweddariad ar lafar ynghylch y cynnydd a wnaed o ran symud i leoliad newydd. Roedd y symud wedi mynd yn dda, a’r unig waith a oedd yn weddill i’w gwblhau oedd gosod peiriannau argraffu newydd.

11.2 Nodwyd bod modd i Lywodraeth Cymru gael mynediad o hyd i ardaloedd ei thenantiaid, ond bod Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru wedi datgan mai’r bwriad oedd cyfyngu ar fynediad yn y dyfodol.

## 12. Rhaglen Waith y Dyfodol

12.1 Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran rhaglen waith y dyfodol fel yr adroddwyd yng nghyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2024.

## 13. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ynghylch Cynnydd

13.1 Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran gweithredu’r argymhellion archwilio a oedd yn weddill.

## 14. Adroddiad Monitro’r Gyllideb

14.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch y gyllideb, a oedd wedi’i gyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ar 25 Medi 2024.

**15. Rheoli Risg**

15.1 Cafodd y cofrestrau risg cyfredol eu hystyried, a nodwyd manylion y newidiadau a oedd wedi'u gwneud i'r gofrestr risg gorfforaethol a'r gofrestr risg weithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**16. Ymarfer Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

16.1 Nododd y Pwyllgor fod ymarfer hunanasesu blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cychwyn.

**17. Adroddiadau Archwilio Cymru**

17.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Archwilio Cymru, a oedd yn rhoi manylion am waith cyfredol ac arfaethedig gan Archwilio Cymru ynghyd â manylion am gyhoeddiadau diweddar a blaenraglenni gwaith arfaethedig.

**18. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

18.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw roddion na lletygarwch wedi'u datgan ers y cyfarfod diwethaf.

**19. Cwynion**

19.1 Nododd y Pwyllgor y 3 cwyn ddiweddar a oedd wedi dod i law'r Comisiwn. Bu'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Comisiwn wrth ymateb i'r cwynion hynny, gan nodi bod yr ymatebion wedi'u rhoi o fewn yr amserlenni gofynnol. Nodwyd hefyd bod un o'r cwynion wedi'i datrys erbyn hyn.

**20. Adroddiad ynghylch Chwythu'r Chwiban a Thwyll**

20.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd yr un achos o chwythu'r chwiban neu o dwyll wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf.

**21. Adroddiad ynghylch Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

21.1 Nododd y Pwyllgor y ceisiadau am wybodaeth a oedd wedi dod i law'r Comisiwn rhwng 1 Ebrill 2024 ac 18 Tachwedd 2024, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**22. Unrhyw Fater Arall**

22.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**23. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf**

23.1 Roedd dyddiad y cyfarfod nesaf wedi'i bennu, sef 4 Mawrth 2025 am 9:30.